# BE THE WAVE
# AR FRIG Y DON

## Gweithredu



cadwch keep gymru'n wales daclus tidy

MARINE CONSERVATION SOCIETY

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfeydd Strwythurol a Buddosoddi Ewropeaidd
European Structural and Investment Funds

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

**Gweithredu yn eich ysgol**

Gall ysgolion chwarae ran enfawr yn yr ymgyrch i gael y newid #arfrigydon sydd ei angen i warchod ein cefnforoedd.

Bydd deall pwysigrwydd yr amgylchedd morol i'r blaned a bygythiadau i'w iechyd yn helpu disgyblion i benderfynu pa feysydd maent yn teimlo'n angerddol yn eu cylch a sbarduno'r awydd i wneud gwahaniaeth drwy gymryd camau cadarnhaol.

Gall ysgolion ddewis llawer o lwybrau gweithredu. Gall dewisiadau gynnwys gweithgareddau codi sbwriel ymarferol, ymuno â mentrau neu greu eu hymgyrch #arfrigydon eu hunain. Gall gweithgareddau gynnwys sioeau ffasiwn, cystadlaethau, digwyddiadau codi arian neu newyddiaduraeth ymchwiliol. Mae'r rhestr yn ddiddiwedd! Serch hynny, mae'n hollbwysig bod disgyblion a staff yn ymwybodol o'r ymddygiadau presennol a'r effeithiau cysylltiedig y mae eu hysgol yn ei chael ar yr amgylchedd morol. Byddai'r wybodaeth hon yn fan cychwyn am welliant a pherchnogaeth o'u gweithredoedd a'u datrysiadau.

Dylid gofyn cwestiynau megis, faint o sbwriel neu wastraff ydy eich ysgol yn ei gynhyrchu? Pa eitemau sy'n cael eu hailgylchu? Pa nwyddau glanhau sy'n cael eu defnyddio? Ydy'r draeniau yn eich ysgol yn rhydd o sbwriel? Faint o'ch gwastraff sy'n blastig un-tro? Ydy ein hysgol wedi creu polisi sbwriel? Pan fydd yr atebion i'r cwestiynau hyn yn hysbys, gall disgyblion benderfynu os ydyn nhw'n foddhaol neu a oes angen mwy o gamau i wella'r sefyllfa?

**Dod yn Ysgol-Eco wych**

Ffordd wych i ddechrau ymchwilio a gwella amgylchedd yr ysgol yn barhaus yw sicrhau bod eich ysgol yn Ysgol-Eco. Mae ysgolion ar draws y byd, gan gynnwys Cymru yn rhan o'r rhaglen Eco-Sgolion byd-eang. Ar hyn o bryd, mae saith deg o ysgolion yn rhan o'r rhaglen ac mae dros 56,000 o ysgolion wedi cofrestru!! Yng Nghymru, mae'r rhaglen Eco-Sgolion wedi'u rheoli gan Cadwch Gymru'n Daclus a chewch adnoddau pwnc defnyddiol ar y wefan i ysgolion yn ogystal â Dogfen Adolygiad Amgylcheddol a thempledi Cynllun Gweithredu – bydd y rhain yn eich helpu i chi ddarganfod yr hyn mae'ch ysgol yn ei wneud ar hyn o bryd ac yn eich cynorthwyo i gynllunio camau gweithredu ar gyfer gwelliannau. Mae bod yn Eco-Ysgol yn annog gweithredu ysgol gyfan, cynnwys y gymuned a chyfathrebu eich negeseuon Eco ymhell ac yn eang.

**Cynnal diwrnod gweithredu**

Mae trefnu diwrnod gweithredu yn yr ysgol yn gyfle gwych i gynnwys pawb – disgyblion, athrawon a staff cynorthwyol – mewn digwyddiad gyda nod penodol. Mae angen cynllunio diwrnodau gweithredu yn drylwyr a rhannu rolau a dyletswyddau. Bydd cynllunio yn eich helpu i adnabod eich nodau – byr, canolig a thymor hir. Mae cynllunio da yn eich galluogi i fod yn fwy parod ac mae'n helpu i sicrhau bod eich digwyddiad yn llwyddiannus gan ei wneud yn hwyl i bawb!

Byddai diwrnod gweithredu ysgol nodweddiadol yn cynnwys elfennau o ymchwilio a chasglu data, tasgau a phrosiectau ymarferol, cyflwyniadau a chyfle i gael adborth.
Mae bob amser yn syniad da dechrau eich diwrnod gweithredu gyda gwasanaeth ysgol gyfan i roi hwb i'r digwyddiad a gosod y safon. Gall gweddill y diwrnod gynnwys gweithgareddau wedi'u cylchdroi a gwersi pwnc â ffocws.

Dylid casglu awgrymiadau a barn ysgol gyfan drwy'r dydd, gellid eu casglu drwy addewidion, prosiectau celf, holiaduron, lluniau neu fideo.
Gellir trefnu negeseuon trydar ar gyfrif yr ysgol gyda hashnod Diwrnod Gweithredu.
Yn ogystal â'r gweithgareddau strwythuredig yn ystod y dydd, gallwch ofyn i ddisgyblion gymryd rhan mewn digwyddiad codi sbwriel, gemau, neu siopau cyfnewid ar gyfer teganau neu ddillad.

Gellir gwahodd arbenigwyr i siarad ar bynciau yn ymwneud â'r thema ddewisedig ac os yw'n bosibl gynnwys y gymuned leol gan y bydd hyn yn dod ag amrywiaeth o fuddion a gwybodaeth werthfawr i chi eu defnyddio. Gall rhieni, cymdogion, busnesau lleol a'r awdurdod lleol fod yn ffynonellau cyngor, gwybodaeth, cymorth ymarferol a hyd yn oed arian. Mae cymaint o botensial yn y cymunedau, yn ogystal â chyfleoedd i greu cyhoeddusrwydd ychwanegol a chodi proffil yr ysgol.

**Defnyddiwch ein Rhestr Wirio Diwrnod Gweithredu i'ch helpu i gynllunio'ch gweithgareddau**.

Cofiwch fod waith i'w wneud ar ôl eich diwrnod gweithredu. Dylid dadansoddi data ac adborth a gosod camau gweithredu newydd. Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n dathlu a dweud wrth bobl am eich gwaith - ysgrifennwch adroddiad i'r wasg, adroddiad newyddion i wefan yr ysgol neu gylchlythyr. Beth am hyrwyddo eich gweithgareddau ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn rhoi gwybod i'ch cymuned leol? Bydd Eco-Sgolion Cymru yn rhannu a hyrwyddo'ch gweithgareddau felly tagiwch @Eco-SgolionCymru yn eich negeseuon trydar.

Gall cynllunio, dylunio a chyflwyno diwrnod gweithredu fod yn brosiect trawsgwricwlaidd sy'n cynnwys pob maes dysgu a phrofiad. Gall gweithgareddau fel casglu data a chyflwyno, gysylltu â mathemateg a rhifedd. Gellir dangos gwybodaeth drwy gelfyddydau fel cerdd a drama. Ewch allan i'r awyr agored i ymchwilio neu godi sbwriel er mwyn hybu iechyd a lles eich disgyblion.

Drwy ymchwilio a rhoi gwybodaeth, gall diwrnod gweithredu dynnu sylw at faterion i helpu pobl ifanc i ddeall sut maent yn effeithio ar yr amgylchedd ac yn bwysicach fyth, sut y gallant ei wella. Gall ddefnyddio canfyddiadau'r diwrnod i greu mwy o gamau gweithredu, mwy o effaith a chryfhau llais y disgyblion. Mae hyn yn caniatáu cyd-destun dilys i ddisgyblion ddatblygu pob un o'r 4 diben craidd yn ogystal â datblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol.

Ewch i adnoddau Diwrnod Gweithredu Ysgolion Cadwch Gymru'n Daclus am fwy o wybodaeth a syniadau.

**Cael eich ysbrydoli ymhellach**..

**Am fwy o ysgogiad a syniadau am weithgareddau edrychwch ar** awgrymiadau #**arfrigydon** i ddefnyddio yn eich gwaith dosbarth a chynlluniau gweithredu.

Cofiwch! Cymerwch amser i ddarganfod pa gefnogaeth y gall mudiadau lleol, cenedlaethol neu ryngwladol gynnig i'ch ysgol.

Gall esiamplau gynnwys:

**Dod yn Ysgol Ddi-Blastig**

Ymunwch â rhaglen *Surfers Against Sewage*, sydd wedi'i harwain gan ddisgyblion i greu newid amgylcheddol cadarnhaol ac atal defnydd plastig un-tro yn ein hysgolion ar draws y DU. Bydd

ysgolion yn gwneud nifer o weithgareddau gan gynnwys archwiliad plastig un-tro a chymryd camau i waredu eitemau plastig o'u hysgol am byth, i herio'r llywodraeth a diwydiant drwy lais y disgybl ac ymgyrchu.

Cefnogi'r Gymdeithas Gadwraeth Forol

Helpwch y Gymdeithas Gadwraeth Forol drwy wneud ei *Source to Sea Litter Quest*. Mae angen i chi gasglu data sbwriel o'r traeth, y stryd neu'r parc lleol. Bydd y data hwn yn helpu i greu ymgyrchoedd am newid, sy'n helpu eich ysgol fod #arfrigydon ar lygredd morol.

Cymryd rhan mewn Diwrnod Cefnforoedd y Byd

Dathlwch Ddiwrnod Cefnforoedd y Byd drwy ymuno ag eraill o gwmpas y byd i gymryd camau i warchod ac adfer ein planed las. Gallwch lawrlwytho syniadau ac adnoddau ar gyfer gweithredu, gan gynnwys mentrau ieuenctictid a sut i gynllunio digwyddiad yn ogystal â gwybodaeth a chyfleoedd o'r Cyngor Ymgynghorol Ieuenctid (*Youth Advisory council*).

cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy

33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9HB | 33-35 Cathedral Rd, Cardiff, CF11 9HB
029 2025 6767 keepwalestidy.cymru info@keepwalestidy.cymru

Cadwch Gymru’n Daclus yn gwmni wedi ei gyfyngu trwy warant. Rhif Cwmni: 4011164 Rhif Elusen: 1082058 Rhif TAW: 850 3958 13
Keep Wales Tidy is a Company Limited by Guarantee. Company Registration Number: 4011164 Charity Registration Number: 1082058 VAT Registration Number: 850 3958 13